# Cronfa Arddangosfeydd Stuart Rendel

Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae Arddangosfeydd Stuart Rendel yn darparu cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr israddedig sy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Derbynnir ceisiadau gan rai sydd ar fin cychwyn eu gradd, neu rhai sydd yn y flwyddyn gyntaf o astudio. Caiff ei ddyfarnu o Gronfa Ganolraddol ac Addysg Dechnegol Sir Drefaldwyn, a gaiff ei rheoli gan Sefydliad Cymunedol Cymru.

## Grantiau sydd ar gael

- Gwerth yr arddangosfeydd yw £1,000 pob blwyddyn am weddill eu cwrs israddedig, hyd at 4 mlynedd.

Seilir y dyfarndaliadau ar berfformiad academaidd (Safon A neu'r cyfwerth) a'r achos a wneir dros gefnogaeth ar y ffurflen gais.

## Pwy a all ymgeisio?

Rhaid bod yr ymgeisydd yn:

- Byw yn Sir Drefaldwyn
- Dan 25 oed
- Wedi mynychu Ysgol Uwchradd yn Sir Drefaldwyn am nid llai na dwy flynedd
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol

## Beth y gellir ei gyllido?

- Costau sy'n gysylltiedig â dechrau ar addysg bellach/addysg uwch, yn cynnwys costau cyfarpar, deunyddiau, teithio dramor, a ffioedd cyrsiau/arholiadau.

Telir i ymgeiswyr llwyddiannus ar ôl dangos prawf eu bod wedi cofrestru ar y cwrs a ddatganwyd ganddynt.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen.

**Noder:** Dyfarnir grantiau ond am gostau sydd i'w hachosi ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Ni ellir rhoi grantiau'n ôl-weithredol, hynny yw, am weithgareddau sydd eisoes wedi digwydd.

# Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan.

**Noder:**

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.